Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

## Ystadegau Medr

# Ansawdd a Methodoleg: Cyllid sefydliadau addysg uwch, Medi 2023 – Awst 2024

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/12/2025 - **Atodiad A** |
| **Dyddiad:** | 13 Mai 2025 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | **Gwybodaeth ansawdd a chynhyrchu am y cyhoeddiad 'Cyllid sefydliadau addysg uwch, Medi 2023 – Awst 2024'** |
| **Thema:** | Addysg Uwch |
| **Ffynhonnell:** | Cofnod Cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys

Ffynhonnell y data ........ 2

Cofnod Cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ........ 2

Nodiadau a diffiniadau ........ 2

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd ........ 2

Perthnasedd ........ 2

Cywirdeb ........ 2

Amseroldeb a phrydlondeb ........ 2

Hygyrchedd ac eglurder ........ 3

Cymharedd a chydlyniad ........ 3

Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ........ 3

# Ffynhonnell y data

## Cofnod Cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Mae HESA yn casglu data ynghylch cyllid gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n cwmpasu incwm, gwariant, y fantolen, datganiad o enillion a cholledion, gwariant cyfalaf a chyflog uwch staff (lle y bo ar gael).

Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyflwyno data yn y gaeaf ar ôl diwedd pob blwyddyn academaidd mewn templedi a ddarperir gan HESA. Mae ansawdd y data'n cael ei sicrhau a'r data'n cael ei brosesu, gan gynnwys cymharu â chyfrifon cyhoeddedig sefydliadau addysg uwch. Wedyn mae HESA'n amcanu at gyhoeddi data ar gyfer y DU gyfan yn y gwanwyn canlynol, gan gynnwys data a gasglwyd gan y Swyddfa Fyfyrwyr am gyllid darparwyr addysg uwch Lloegr.

# Nodiadau a diffiniadau

Mae ffigyrau 2023/24 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 ac mae ffigyrau 2022/23 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023.

Y ffigyrau ar gyfer 2022/23 yn y datganiad hwn yw'r gwerthoedd wedi'u hailddatgan a gasglwyd wrth gasglu cofnod cyllid 2023/24. Mae hyn yn golygu y gall ffigyrau 2022/23 fod yn wahanol i'r hyn a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y diffiniadau a ddefnyddir yng nghofnod cyllid HESA ar wefan HESA.

# Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

## Perthnasedd

Mae'r ystadegau'n darparu gwybodaeth lefel-uchel am gyllid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

## Cywirdeb

Mae HESA wedi datblygu manylebau manwl ar gyfer y data a ddychwelir gan sefydliadau. Mae'r holl ddata'n mynd trwy nifer o gamau dilysu a gwirio, gyda'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch yn cyflwyno'u data nifer o weithiau i lwyddo yn y gwiriadau hyn. Fel rhan o hyn mae ansawdd y data'n cael ei sicrhau a'r data'n cael ei brosesu, gan gynnwys cymharu â chyfrifon cyhoeddedig sefydliadau addysg uwch.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Mae HESA yn casglu'r cofnod cyllid yn y gaeaf yn dilyn diwedd pob blwyddyn academaidd gan amcanu at gyhoeddi data yn y gwanwyn canlynol ar ôl cael data ar gyfer darparwyr yn Lloegr gan y Swyddfa Fyfyrwyr.

Cyhoeddwyd y datganiad hwn cyn gynted â phosibl ar ôl hyn.

### Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddwyd gwybod ymlaen llaw am y datganiad ystadegol hwn ar wefan Llywodraeth Cymru ac yna fe'i cyhoeddwyd ar wefan Medr.cymru.

Ceir data cyllid ychwanegol ar wefan Data Agored HESA.

### Cymharedd a chydlyniad

Mae gwefan Data Agored HESA yn cynnwys data cyllid ar gyfer darparwyr ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys y data a gasglwyd gan HESA gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae'n ei gyfuno â data a gasglwyd gan y Swyddfa Fyfyrwyr ar gyfer darparwyr yn Lloegr.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir mewn perthynas â dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'n polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Daw'r data o gofnod Cyllid HESA sy'n casglu data gan sefydliadau addysg uwch. Pan gyflwynir y data rhaid iddo fodloni rhai rheolau dilysu. Pan fo'r ystadegau'n cael eu cynhyrchu fe gynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

### Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i incwm a gwariant sefydliadau addysg uwch Cymru.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government